

SL(6)031 - Rheoliadau Bwyd a Diod (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Offerynnau Statudol a ganlyn sy'n gysylltiedig â safonau a labelu bwyd a diod:

- Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014; a
- Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015.

Mae'r diwygiadau yn cyflwyno cyfnod trosiannol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni ellir cyflwyno hysbysiadau gwella i bobl sy'n methu â chydymffurfio â gofynion labelu newydd ar gyfer cynnyrch a roddir ar y farchnad ar 30 Medi 2022 neu cyn y dyddiad hwnnw.

Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o ymadael â'r UE a sicrhau y gall y llyfr statud weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018").

Gosodwyd y Rheoliadau hyn i'w sifftio gerbron un o bwyllgorau Senedd Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Ar 12 Gorffennaf 2021, cytunodd y pwyllgor sifftio mai gweithdrefn y penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee